Cefnogi gweithio cynhwysol ac ar y cyd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rôl yr ymarferydd datblygu cymunedol wrth gefnogi pobl a grwpiau i ddod ynghyd i ganfod materion cyffredin, pennu nodau ac amcanion a chyflawni eu nodau cyffredin. Mae'r mwyafrif o grwpiau cymunedol, ar ryw adeg, yn wynebu mater denu a chadw aelodau newydd; a her cydnabod bod angen iddynt gael hyd i ffyrdd newydd o gynnwys ystod ehangach o bobl. Mae'r safon yn golygu gwethio ar draws cymunedau sefydledig, rhai newydd a rhai sydd ar y cyrion, gan gydnabod gwahanol setiau o sgiliau a dulliau gweithredu y mae angen eu defnyddio mewn ymarfer datblygu cymunedol cynhwysol.

Mae'r safon hon yn berthnasol i bob ymarferydd datblygu cymunedol sy'n cefnogi cymunedau yn y broses hon.

Trefnir y safonau datblygu cymunedol yn chwe maes allweddol:
• Un - deall ac ymarfer datblygu cymunedol
• Dau - deall cymunedau ac ymgysylltu â nhw
• Tri - gwaith grŵp a gweithredu ar y cyd
• Pedwar - cydweithio a gweithio ar draws sectorau
• Pump - dysgu cymunedol er newid cymdeithasol
• Chwech - llywodraethu a datblygu sefydliadol

Mae'r safon hon yn rhan o Faes Allweddol Un

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1 gweithio gydag unigolion a grwpiau i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion a allai effeithio ar eu cymuned
2 gweithio mewn ffyrdd cynhwysol ar draws cymunedau amrywiol a rhai sydd ar y cyrion
3 cefnogi grwpiau i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder i gynnwys cymunedau sydd ar y cyrion
4 cynnwys pobl sy'n pryderu am eu cymuned mewn gweithgareddau a grwpiau
5 datblygu gweithgareddau er mwyn nodi'r posibiliadau o ran gweithredu ar y cyd
6 cefnogi pobl i gyfranogi'n llawn ac yn gyfartal mewn gweithgareddau a grwpiau
7 gwerthuso'r adnoddau sydd eisoes yn bodoli er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a fynegwyd gan y gymuned
8 cefnogi grwpiau i gytuno ar nodau, tasgau a strwythurau sefydliadol ar gyfer gweithredu ar y cyd
9 cefnogi grwpiau i oresgyn rhwystrau i gyflawni eu nodau
10 adeiladu ar gryfderau, sgiliau ac arbenigedd aelodau'r grŵp trwy amrywiaeth o ddulliau dysgu ar y cyd
11 awgrymu dulliau recriwtio i lenwi bylchau a nodwyd o ran sgiliau a chynrychiolaeth
12 cefnogi grwpiau i ymdopi â'r trosiant mewn aelodau gweithredol a achosir gan ffactorau allanol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

Y cyd-destun
1 sut mae ymgysylltu â phob rhan o gymunedau
2 effaith pŵer a pherthnasoedd pŵer ar unigolion a chymunedau sy'n gweithredu ar y cyd
3 manteision cydnabod a gosod gwerth ar amrywiaeth
4 sut mae ffactorau strwythurol yn effeithio ar wahanol rannau o'r gymuned
5 ffyrdd o oresgyn rhwystrau i gyfranogiad
6 pwysigrwydd grwpiau'n penderfynu ynghylch eu datblygiad eu hunain

Gosod nodau cyffredin
7 rôl ymchwil a gwybodaeth i bennu pryderon cyffredin
8 technegau a dulliau gweithredu ar gyfer nodi materion, nodau, tasgau, anghenion a chapasiti cyffredin ar y cyd
9 sut mae gweithio'n gynhwysol ar draws grwpiau prif-ffrwd a rhai sydd ar y cyrion

Deinameg a phrosesau grŵp
10 sut mae hwyluso dulliau ar y cyd o weithio gyda grwpiau
11 sut mae defnyddio gwerthoedd datblygu cymunedol mewn grwpiau
12 effaith poblogaethau symudol a newidiol ar grwpiau
13 gweithio gyda grwpiau i greu tryloywder ac atebolrwydd
14 angen cefnogaeth ar gyfer y rolau mae pobl yn eu cyflawni mewn grwpiau

## Gwerthoedd

Seiliwyd datblygu cymunedol ar gyfres o werthoedd sy'n ei osod ar wahân i weithgareddau eraill, a all fod yn gysylltiedig, yn y gymuned. Mae'r gwerthoedd hyn yn greiddiol i ddatblygu cymunedol, ac yn darparu sylfaen ar gyfer pob un o'r safonau. Y gwerthoedd yw;

1 Cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb
2 Gwrthweithio camwahaniaethu
3 Grymuso cymunedol
4 Gweithredu ar y cyd
5 Gweithio a dysgu gyda'n gilydd

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos sut gallai pob un o'r gwerthoedd datblygu cymunedol lywio ymarfer yn y safon hon. Nid yw'r gosodiadau hyn yn rhan o'r gofynion asesu.

1 Croesawir unigolion o wahanol gefndiroedd yn rhagweithiol a'u hannog i gymryd rhan
2 Cymerir camau i sicrhau bod pobl o wahanol gefndiroedd a rhai sydd â gwahanol anghenion yn gallu cyfranogi'n llawn mewn gweithgareddau cymunedol
3 Mae unigolion yn cymhwyso'r hyder a'r sgiliau a gafwyd yn sgîl cyfranogi mewn grwpiau i gyflawni rolau newydd
4 Anogir syniadau newydd a chreadigol ar gyfer dod â phobl ynghyd
5 Mae grwpiau'n cyfranogi mewn rhwydweithiau gyda grwpiau eraill ac yn darparu cefnogaeth cymheiriaid i'w gilydd

Cefnogi gweithio cynhwysol ac ar y cyd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | NYA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2018 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Learning Skills Improvement Service |
| **RCU gwreiddiol** | LSICD09 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr Cymunedol Gwirfoddol, Grwpiau Cymorth Cymunedol |
| **Cyfres/Set** | Datblygu Cymunedol |
| **Geiriau Allweddol** | datblygu cymunedol; ymarferydd datblygu cymunedol; ymarfer datblygu cymunedol; gwerthoedd datblygu cymunedol; ymchwil datblygu cymunedol; ymgynghori ar ddatblygu cymunedol; grwpiau datblygu cymunedol; dulliau datblygu cymunedol |